Ysgol Iolo Morganwg

Disgrifiad Swydd Cynorthwy-ydd Cefnogi Dysgu (LSA) (Lefel 2)

Mae cwmpas gwaith CCD lefel 2 yn cynnwys holl ystod lefel 1 hefyd.

Pwrpas y Swydd

- I weithio dan gyfarwyddyd athrawon ac aelodau o'r uwch dîm rheoli ac o fewn system goruchwyliaeth yr ysgol
- I roi cefnogaeth i unigolion neu grwp o ddisgyblion er mwyn hyrwyddo mynediad i ddysgu iddynt.
- I gynorthwyo'r athro/-awes yn nhrefniant dydd i ddydd y disgyblion yn y dosbarth a thu allan

Cefnogaeth i'r disgyblion

- Goruchwylio a rhoi cefnogaeth i ddisgyblion yn cynnwys rhai sydd ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu diogelwch a mynediad i weithgareddau dysgu

- Cynorthwyo gyda dysgu a datblygiad holl ddisgyblion y dosbarth gan gynnwys gweithredu cynlluniau addysgiadol unigol a chynlluniau ymddygiad unigol y disgyblion.

- Hybu cynhwysiant pob disgybl yn y dosbarth

- Annog y disgyblion i gydweithio a chymysgu ag eraill a chynorthwyo gyda gweithgareddau a drefnir gan yr athro/awes.

- Gosod disgwyliadau heriol ac uchel

- Annog y plant i fod yn annibynnol a datblygu eu hunan-hyder

- Rhoi adborth i ddisgyblion ar eu gwaith (a drefnwyd gan yr athrawes) a'u hymddygiad, cydnabod a gwobrwyo eu llwyddiannau.

Cefnogaeth i'r athro/athrawes

- Gweithio o dan gyfarwyddyd yr athro/awes i greu awyrgylch ddysgu pwrpasol, trefnus a chefnogol

- Trafod gyda'r athro/awes wrth iddo/i gynllunio yn y tymor byr ar gyfer grwpiau/ unigolion/ dosbarth cyfan.

- Adrodd yn ôl yn rheolaidd ar gynydd a chyrhaeddiad plant gan dynnu sylw at unrhyw anhawster neu problem.

- Monitro a gwerthuso ymatebion y disgyblion i weithgareddau dysgu drwy wneud arsylwadau, cadw record ac adrodd nôl i'r athrawes

- Delio gyda thasgiau clerigol a gweinyddol y dosbarth ee llungopio, casglu arian, dosbarthu llythyron, ffeilio.

- Hybu ymddygiad bositif ac agweddau positif at ddysgu

Cefnogaeth i'r cwricwlwm

- Gweithredu'r gweithgareddau dysgu a gytunwyd gan yr athro/awes

- Gweithredu rhaglenni dysgu sydd ynghlwm â strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh

- Paratoi, trefnu a defnyddio yr offer angenrheidiol ar gyfer y wers a chynorthwy'r disgyblion i'w defnyddio; eu casglu a'u cadw ar ôl y wers

- Cefnogi'r defnydd o TGCh yn y gweithgareddau dysgu a datblygu hyder ac annibyniaeth y disgyblion yn hyn.

- Cwrdd â rhieni a gwarchodwyr. Trafod materion mewn ffyrdd sensitif a phroffesiynol.

- Cyfrannu at gyfarfodydd rhieni ac adolygiadau blynyddol (lle bo angen)

Cefnogaeth i'r ysgol

- Meddu ar ymwybyddiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau yr ysgol yn ymwneud â chynhwysiant, Gofal Plant, Iechyd a Diogelwch, Cyfrinachedd a Gwarchod Data, gan roi gwybod am unrhyw gonsyrn i'r person cymwys

- Cyfrannu at ethos a gweithgareddau yr ysgol, ac i fod yn ymwybodol o anghenion y Cwricwlwm Cymreig

- Cefnogi gwaith asiantaethau allanol er mwyn gwella cynnydd disgyblion

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y galw

- Mynychu cyfarfodydd perthnasol

- Goruchwylio disgyblion y tu allan i'r dosbarth gan gynnwys cyn ac ar ôl amserau ysgol ac amser cinio

- Goruchwylio disgyblion ar ymweliadau a gwibdeithiau y tu allan i'r ysgol

Profiad

- Profiad o weithio gyda phlant o'r oedran ac anghenion perthnasol

Cymwysterau

- Sgiliau rhifedd a llythrennedd da

- Cymhwyster GNVQ lefel 2 (neu cyffelyb)

- Tystysgrif Cymorth Cyntaf, neu'r parodrwydd i'w ennill

- Hyfforddiant perthnasol at weithgaredd dosbarth

Gwybodaeth a sgiliau

- Y gallu i ddefnyddio TGCh i gefnogi'r dysgu

- Y gallu i ddefnyddio offer fel fideo, llungopiwr, ayyb

- Dealltwriaeth cyffredinol am bolisiau a'r côd ymarfer ac i fod yn ymwybodol o ddeddfwriaethau perthnasol

- Gwybodaeth cyffredinol o'r Cam Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu strategaethau cenedlaethol perthnasol eraill

- Dealltwriaeth cyffredinol o ddatblygiad corfforol, deallusol ac emosiynol plant a'r ffordd y maent yn dysgu

- Y gallu i weithio'n annibynol lle bo angen ond hefyd yn adeiladol fel rhan o dîm agos